Creu poster

Awgrymiadau ar greu ymgyrch posteri

MAE'CH DATA CHI'N CYFRIF

Mae'n bwysig bod pob person ifanc yn deall beth yw'r Cod Plant a pham mae'n berthnasol iddyn nhw.

Fe hoffem ichi weithio mewn parau i greu poster llawn gwybodaeth fel rhan o ymgyrch i wneud pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yn ymwybodol o'r Cod Plant.

Dylai'ch poster esbonio beth yw'r Cod Plant a pham mae'n bwysig a hynny mewn ffordd ddifyr fel ei bod yn hawdd ei deall.

1. Ystyriwch eich cynulleidfa

- Meddyliwch pwy yw eich cynulleidfa darged. Beth yw eu diddordebau nhw?
- Bob dydd, mae pobl ifanc yn gweld llawer o hysbysebion a chynnwys arall. Beth fyddai'n gwneud i'ch poster chi sefyll allan i'r gynulleidfa darged?
- Meddyliwch am oedran eich cynulleidfa, a sut gallwch chi wneud eich poster yn hawdd i'w ddeall.

2. Chwiliwch am gyfeiriadau gweledol

- Yn eich parau neu'ch grwpiau, gwnewch rywfaint o ymchwil a dod o hyd i enghreifftiau o hysbysebion, neu fathau eraill o gynnwys, sy'n dal eich llygad. Beth sy'n gwneud iddyn nhw dynnu sylw?
- Allwch chi ddod o hyd i enghreifftiau o bosteri gwybodaeth o amgylch yr ysgol - beth sy'n eu gwneud nhw'n effeithiol?

3. Penderfynwch ar eich negeseuon allweddol

- Yn eich parau neu'ch grwpiau, penderfynwch ar y pwyntiau allweddol rydych chi am eu cyfleu yn eich poster.
- Gallech ymchwilio i ddysgu mwy am y Cod Plant, neu ddefnyddio taflen gryno'r Cod Plant.
- Cofiwch gynnwys ble gall pobl fynd i gael rhagor o wybodaeth.

4. Byddwch yn greadigol

- Meddyliwch sut gallai defnyddio lliw, dylunwaith, graffeg, diagramau neu luniau wella golwg a theimlad eich poster.
- Cadwch yr holl destun yn glir ac yn gryno.
- Gwnewch i'r wybodaeth bwysig sefyll allan er mwyn cael ei ddarllen o bellter.
- Defnyddiwch bwyntiau bwled a phenawdau i rannu'r testun.
- Defnyddiwch liw a nodweddion dylunio i'w fywiogi.
- Cadwch y teitl yn fyr ac yn fachog!
- Chwaraewch gyda gwahanol gynlluniau cyn setlo ar eich syniad terfynol.

5. Sicrwydd ansawdd

- Cofiwch ofyn i rywun brawfddarllen eich gwaith. Gwiriwch eich ffeithiau, eich ffigurau, eich sillafu, eich atalnodi a'ch terminoleg.

ico. Information Commissioner's Office